



# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU



**DYDDIAD 13 MAWRTH 2024**

## TESTUN

### DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT - SEILWAITH

#### ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Derbyn cyflwyniad gan GCM Grosvenor

#### RHESYMAU:

Penodwyd GCM Grosvenor yn Ddyrannwr Seilwaith PPC ym mis Mawrth 2022, a lansiwyd y rhaglenni Buddsoddi mewn Seilwaith ym mis Mawrth 2023. Y chwarter hwn, mae GCM Grosvenor yn darparu diweddariad cynnydd i PPC.

**Awdur yr Adroddiad:**

Chris Moore

**Swydd:**

Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-bost:

CMoore@carmarthenshire.gov.uk

# CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

**DYDDIAD 13 MAWRTH 2024**

## **DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT – SEILWAITH**

### **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Yn 2023, lansiodd PPC eu rhaglenni cychwynnol ar Fuddsoddi yn y Farchnad Breifat. Mae GCM Grosvenor, Dyranwr Seilwaith PPC, yn darparu diweddariad ar gynnydd y rhaglenni Caeedig a Phenagored.

Mae'r rhaglen Gaeedig yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau seilwaith amrywiol ar draws prif fuddsoddiadau, buddsoddiadau eilaidd a chyd-fuddsoddiadau yn y DU, Ewrop a Gogledd America. Ymrwymwyd £166m gyda £77m wedi ei fuddsoddi hyd yma. Y cronfeydd sy'n buddsoddi yn y rhaglen hon yw Clwyd, Dyfed, Gwynedd, Powys, RhCT, Abertawe, a Gwent Fwyaf (Torfaen).

Mae tri rheolwr penagored:

- IFM – Mae'r IFM Global Infrastructure Fund yn buddsoddi mewn portffolio amrywiol o asedau seilwaith ar draws y sectorau trafniadaeth, ynni, cyfleustodau a digidol sy'n ceisio sicrhau refeniw sefydlog dros y tymor hir. Ymrwymwyd £221m gyda dim buddsoddiadau hyd yma.
- CBRE - Mae'r CBRE Global Infrastructure Fund yn buddsoddi mewn asedau ar draws sectorau digidol, trafniadaeth, trawsnewid ynni, a seilwaith cyfleustodau sydd â nodweddion cynhyrchu arian parod gyda contract fanwl. Ymrwymwyd £88m gyda dim buddsoddiadau hyd yma.
- Octopus - Mae'r Octopus Renewable Sky Fund yn buddsoddi yn bennaf mewn asedau adnewyddadwy a thrawsnewid ynni, craidd, dan gontract ac sy'n cynhyrchu arian parod, ledled y DU, Ewrop, Gogledd America ac APAC. Ymrwymwyd £133m gyda £67m wedi ei fuddsoddi hyd yma.

Y cronfeydd sy'n buddsoddi yn y rhaglen benagored yw Caerdydd, Gwynedd, Powys, Abertawe, a Gwent Fwyaf (Torfaen).

**ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?**

**OES**

## GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb	Cyfreithiol	Cyllid <input type="checkbox"/>	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio	Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd
<b>DIM</b>	<b>DIM</b>	<b>DIM</b>	<b>DIM</b>	<b>DIM</b>	<b>DIM</b>

## YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

<b>Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:</b>		
<b>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD</b>		
<b>Teitl y Ddogfen</b>	<b>Cyfeirnod Ffeil</b>	<b>Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN</b>